Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Wyngarth Meithrinfa Menai
# Ffordd Gelli Morgan
# Parc Menai
# Bangor
# LL57 4BL

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016**

**gan**

**Dr Prydwen Elfed-Owens**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/08/2016**

## Cyd-destun

Mae Wyngarth Meithrinfa Menai yn lleoliad dwyieithog preifat, ac fe'i cynhelir mewn adeilad ar safle Parc Menai, Bangor yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'n gwasanaethu ardal gymharol eang, gyda nifer o blant yn mynychu o ochr Ynys Môn a rhai o Sir Gwynedd.

Mae wedi'i chofrestru ers1989. Mae'r lleoliad yn aelod o Ddarparwyr Addysg Feithrin Cyfnod Sylfaen Cyngor Gwynedd. Maent hefyd wedi cofrestru'i haelodaeth gyda Chymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn Ysgol Cymru (CCCCYC) ers 1994.

Darperir gofal ac addysg ar gyfer plant o dri mis hyd at bedair oed, ac mae'r lleoliad ar agor trwy'r dydd pum niwrnod yr wythnos gydol y flwyddyn. Mae cyfanswm o 40 ar y llyfrau ar hyn o bryd. Mae 10 ohonynt yn 3 oed. Daw'r mwyafrif y plant o gartrefi lle mae un o'r rhieni neu 'run yn siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, dau o'r plant tair oed sydd wedi'i hariannu gan yr Adran Addysg. Darperir ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ond adeg yr arolygiad, nid oedd gan unrhyw blentyn anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r lleoliad yn croesawu plant o gefndir lleiafrifol ethnig.

Caiff y lleoliad ei staffio gan reolwraig sydd yn ei swydd ers mis Ebrill 2016, ynghyd â hyd at 9 o staff eraill. Mae dwy o'r rhain yn gyfrifol am addysgu'r plant tair a phedair oed.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) diwethaf ym mis Chwefror 2014, a chan Estyn mis Mawrth 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- bod ymarferwyr yn creu cymuned hapus, ofalgar a chynhwysol
- bod ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol i blant
- bod yr amgylchedd dysgu yn lliwgar a deniadol
- bod y ddwy ardal tu allan yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i blant fwynhau gweithgareddau corfforol egnïol
- bod cyfleoedd ysgogol iawn i blant ddeall y byd ehangach trwy ymweliadau ac ymwelwyr

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod y rheolwraig a'r goruchwylwyr yn cyd-rannu gweledigaeth glir
- bod ymarferwyr yn ymrwymedig i ddatblygiad y plant
- bod cynllun datblygu'r lleoliad yn cynnwys meysydd cymwys ar gyfer gwelliant
- bod y rheolwraig yn cydweithio'n effeithiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod addysg i wella'r ddarpariaeth
- bod yr adnoddau yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi'r dysgu
- bod y lleoliad yn cynnig gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Cynyddu cyfleoedd i blant, yn enwedig y rhai mwy abl, wneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain ac i fwynhau llyfrau'n annibynnol

A2 Sicrhau bod plant yn siarad mwy o Gymraeg a defnyddio termau mathemategol

A3 Gwarantu bod staff yn cadw'n gyfredol drwy fynychu hyfforddiant sirol yn rheolaidd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Ddim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Ddim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Ddim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu cadarnhaol yn yr ardal dan do a'r ddwy ardal awyr agored i ennyn diddordeb a mwyniant yr holl blant. Maent yn rhoi sylw priodol i bob maes dysgu gan fodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Mae'r lleoliad yn cydlynu gweithgareddau hwyliog ar draws y chwe maes dysgu o gwmpas thema sydd yn diddori plant ifanc, megis stori'r Tri Mochyn Bach. Mae'r cynlluniau yn adeiladu'n glir ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau plant i'w galluogi i wneud cynnydd.

Mae'r ymarferwyr yn fodelau da o iaith ac maent yn cynllunio'n ofalus i ddatblygu cysyniadau a geirfa o fewn eu themâu penodol. Er enghraifft, wrth ddynodi rhif, megis tri, a lliw, megis pinc yn ffocws i'r gweithgareddau amrywiol. Serch hynny, mae anghysondeb yn y pwyslais a roddir gan ymarferwyr i fwydo geirfa a chymalau er mwyn i blant ymgyfarwyddo â nhw a'u defnyddio eu hunain. Un enghraifft dda o hyn yw pan fo ymarferydd yn ail adrodd cymal yn y caffi glan môr megis, 'Gai hufen ia pinc, os gwelwch yn dda?' gan annog plant i'w hefelychu.

Maent yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i blant i wrando ar amrediad o storiâu o fewn eu themâu, megis am anifeiliaid. Fodd bynnag, er eu bod yn modelu sut i ymdrin â llyfrau yn ddyddiol nid ydynt yn ysgogi plant i droi at lyfrau o'u gwirfodd.

Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd da i blant ddilyn cyfarwyddiadau; er enghraifft wrth dacluso a mwynhau caneuon actol bywiog am synhwyrau. Enghraifft dda arall yw'r drafodaeth rhwng ymarferwr a phlentyn wrth ymdopi â chlustffonau i'w galluogi i wrando ar stori ar gryno ddisg. Mae hyn yn cefnogi datblygiad gwrando plant yn dda a'u galluogi i ddilyn cyfarwyddiadau yn eiddgar.

Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd amrywiol i blant greu marciau o'u gwirfodd. Enghreifftiau da o hyn yw wrth i blant gymryd archeb yn y caffi glan môr a dewis creu

patrymau gyda phinnau ffelt ar y byrddau gwynion ar y wal. Maent yn trefnu cyfleoedd cyson i blant adnabod eu henwau; megis wrth hunan gofrestru ac wrth estyn eu cotiau i fynd allan. Felly, mae hyn yn hybu datblygiad llythrennedd yn dda.

Maent yn sicrhau cyfleoedd dyddiol i ddatblygu medrau rhifedd plant wrth rifo a chanu rhigymau rhif ac adnabod rhifolion ar draws pob maes dysgu. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i blant ddefnyddio geirfa fathemategol, megis mawr a bach, hir a byr, cyntaf ac ail wrth ymdrin â gwrthrychau yn eu trafodaethau. Felly, nid yw'r cyfleoedd bob amser yn hybu plant i ddeall y cysyniadau yn llawn.

Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd da i ddatblygu medrau corfforol manwl plant. Enghreifftiau da o hyn yw drwy dynnu llinell bensil o amgylch templed o fochyn a thrwy ludo tameidiau bychain o ddefnydd ar bapur i greu blaidd. Mae'r cyfleoedd iddynt drin offer mawr i ddringo, adeiladu modelau ac i ymuno mewn symudiadau rhydd ac egnïol yn hybu eu datblygiad corfforol yn dda.

Maent yn darparu cyfleoedd da iawn i blant ddatblygu dealltwriaeth o'u byd a phethau byw. Er enghraifft, wrth fynd am dro i'r goedwig yn rheolaidd i astudio priodweddau blodau gwylltion a dail ac wrth blannu planhigion yn yr ardd tu allan. Mae defnydd y lleoliad o ymweliadau a chyfraniad ymwelwyr i gyfoethogi dysgu plant am y byd o'u cwmpas ac ehangu eu hymwybyddiaeth o'u hardal leol yn gryfder.

Mae'r ymarferwyr yn creu rhai cyfleoedd addas i ddatblygu medrau meddwl plant a'u hannog i ddatrys problemau. Enghraifft dda o hyn yw cynnig cyfle i blant ddyfalu pam fod rhai gwrthrychau yn suddo i'r dŵr ac eraill yn arnofio. Serch hynny, nid yw plant, yn enwedig y rhai mwy abl, bob amser yn cyfrannu digon i'w penderfyniadau am eu dysgu eu hunain. Prin yw'r cyfleoedd i blant ddewis llyfrau deniadol o'u gwirfodd i ddatblygu eu diddordeb a'u mwyniant mewn darllen. Er enghraifft, pan fo ymarferwyr yn ail adrodd stori gyfarwydd. Mae hyn yn amharu ar ddatblygiad llawn eu medrau meddwl.

Maent yn cynllunio cyfleoedd da i'r plant ddysgu am eu treftadaeth trwy ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi a gwisgo i fyny i ddathlu llwyddiant tîm pêl droed Cymru yng nghystadleuaeth Euro. Bryd hynny, mae'r plant yn dysgu am wisgoedd, bwydydd a chaneuon traddodiadol Cymreig. Maent yn ehangu dealltwriaeth a gwybodaeth plant o ddiwylliannau eraill yn briodol drwy ddathlu Blwyddyn Newydd Tseiniaidd a thrafod lluniau amrywiol a doliau o dras wahanol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y ddau ymarferydd wybodaeth a phrofiad addas o ddatblygiad plant a dealltwriaeth gadarn o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae gan y ddau brofiad o ofalu am blant ar draws oedrannau'r lleoliad, ond maent yn newydd i'w cyfrifoldebau presennol yn arwain a dysgu'r oedran hwn. Maent yn dechrau cydweithio'n effeithiol fel tîm i gynllunio profiadau pwrpasol i ennyn chwilfrydedd plant. Dewisant themâu, gweithgareddau, caneuon a rhigymau hwyliog sydd yn addas i oedran a diddordeb plant ifanc. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol. Ar brydiau, fodd bynnag, ar brydiau maent yn rhoi mwy o bwyslais ar weithgareddau a ddewisir gan oedolion nag ar gyfleoedd i

blant ddewis drostynt eu hunain. Maent yn sicrhau bod y plant yn glir am yr hyn a ddisgwylir ganddynt fel eu bod yn dyfalbarhau ar dasgau.
Mae’r ymarferwyr yn cyflwyno rhai tasgau ffocws ysgogol i ennyn diddordeb naturiol plant. Fodd bynnag, ar brydiau, nid yw’r gweithgaredd yn ddigon heriol i’r plant mwyaf abl. Er enghraifft, pan mae’r ymarferydd yn gorddefnyddio stori gyfarwydd sy’n peri iddynt golli diddordeb.

Mae llif y sesiynau yn dda ac mae pob ymarferwr yn cynnig cymhelliant wrth ymyrryd yng ngweithgareddau rhydd y plant. Fodd bynnag, mae peth anghysondeb wrth gwestiynu plant a’u cymell i ddefnyddio iaith newydd. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn naturiol ac effeithiol iawn. Dilynant drefn gyson o gefnogi a chydnabod ymdrechion plant gan ddangos parch tuag at bob un.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac maent yn cofnodi asesiadau i fesur eu cynnydd yn ofalus. Serch hynny, nid ydynt bob amser yn defnyddio asesu’n ddigon effeithiol i nodi camau dysgu nesaf plant a sicrhau her briodol, yn enwedig i’r rhai mwy abl.

Mae’r staff yn cadw rhieni'n hysbys am les ac addysg eu plant drwy drafodaethau dyddiol anffurfiol. Cynhelir tri chyfarfod ffurfiol bob blwyddyn i rannu gwybodaeth am gynnydd eu plant a chyfarwyddyd ar sut y gallant hwythau hybu hyn yn y cartref. Mae’r rhieni yn derbyn cofnod deniadol o waith eu plentyn ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth i les a diogelwch plant. Mae gan yr holl staff gymwysterau a phrofiad addas ac mae'r gymhareb o oedolion i blant yn hael.

Mae’r trefniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn addas. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod cyflenwad o ddŵr ar gael i blant gydol y sesiwn. Nid oes arferiad i’r lleoliad ddarparu amser byrbryd. Fodd bynnag, mae hyn yn amharu ar y cyfle i blant ddod at ei gilydd i fwyta a sgwrsio a datblygu eu medrau cymdeithasol. Mae ymarferwyr yn arddangos ymwybyddiaeth gwerth chweil o ofal plant. Maent yn trefnu cyfleoedd da iawn i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol i gadw’n iach a heini.

Mae systemau priodol yn eu lle i nodi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae’r lleoliad yn manteisio ar gymorth gan asiantaethau arbenigol fel bo’r gofyn.

Mae trefniadau’r lleoliad i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Mae’r plant yn cael cyfleoedd priodol i fyfyrio, er enghraifft, wrth arsylwi ar anifeiliaid fferm, blodau yn y coed a lliwiau amrywiol yn eu cynefin. Maent yn gwrando ar gerddoriaeth sy’n creu awyrgylch dawel.

Mae'r staff yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu anniddigrwydd. Mae ganddynt berthynas gynhaliol, agos gyda’r plant. Maent yn ysgogi’r plant i ddatblygu agweddau goddefgar ac i ddysgu cydweithio’n hapus a chymryd eu tro wrth chwarae. Mae hyn yn hybu eu datblygiad cymdeithasol yn dda.

Mae’r ymarferwyr yn codi ymwybyddiaeth plant o ddiwylliannau eraill yn dda, er enghraifft trwy ddathlu Blwyddyn Newydd Tseiniaidd pryd byddant yn gwisgo i fyny, a mwynhau blasu bwydydd Tseiniaidd.  Mae’r ymarferwyr hefyd yn codi ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau eraill wrth dynnu sylw at luniau a doliau o wahanol wledydd.

Mae’r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth plant o gynaliadwyedd yn briodol.  Er enghraifft, gwahoddwyd y lori sbwriel i’r lleoliad i gynnig profiad uniongyrchol effeithiol i’r plant o sut mae’r broses o ailgylchu yn gweithio.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau addas i amddiffyn plant.  Maent yn dilyn proses gadarn i recriwtio staff yn ddiogel.  Mae’r ymarferwyr yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau ac yn derbyn hyfforddiant rheolaidd i sicrhau eu bod yn gyfredol yn y maes.  Mae’r rheolwraig  yn cynnal asesiadau risg yn rheolaidd er mwyn sicrhau diogelwch y lleoliad.  O ganlyniad, mae trefniadau lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned gartrefol a chynhwysol.  Mae iddo gyflenwad addas o ymarferwyr a chanddynt gymwysterau cadarn a phrofiad addas i ymateb  i ofynion y Cyfnod Sylfaen yn llawn.  Mae’r berthynas rhwng yr oedolion a’r plant yn gadarnhaol iawn.  Mae hyn yn sicrhau fod plant yn ymgartrefu’n gyflym i deimlo’n hapus a diogel.  Mae’r ymarferwyr yn darparu profiadau cyffrous sydd yn diddori plant am gyfnodau sylweddol.  Maent yn sicrhau bod yr holl blant yn manteisio’n gyfartal ar amrediad difyr iawn o weithgareddau.  O ganlyniad, mae plant yn ymateb yn dda ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Mae’r staff yn defnyddio’r lle sydd ar gael iddynt yn effeithiol iawn.  Mae’r amgylchedd dan do yn lliwgar ac ysgogol.  Mae wedi ei drefnu’n ardaloedd effeithiol megis ardal dechnoleg, ardal gwrando ar storiâu, a chornel gyfforddus ar gyfer amser cylch.  Mae ymarferwyr yn cymryd bob cyfle i arddangos gwaith plant ar y waliau i ddathlu eu cyflawniadau yn gyhoeddus.

Mae’r ddwy ardal tu allan yn cyfoethogi’r ddarpariaeth yn effeithiol iawn.  Mae’r ardal laswelltog yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddringo, i eistedd ar foncyffion dan y coed i wrando ar storiâu ac i chwarae’n rhydd.  Mae’r buarth tu allan wedi ei drefnu’n ardaloedd gan gynnig cyfleoedd uniongyrchol dda i blant. Er enghraifft, plannu planhigion, reidio beics amrywiol, symud yn egnïol i gerddoriaeth a chwarae’n rhydd yn y gegin mwd a’r caffi glan môr.

Mae’r lleoliad yn manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i blant adnabod eu hamgylchfyd.  Er enghraifft, ymweliadau â’r goedwig fechan a fferm gyfagos, taith bws dros bont gerllaw ac i’r caffi lleol am ddiod.  Maent yn gwahodd amrediad diddorol iawn o ymwelwyr i gyfoethogi eu dealltwriaeth o’r byd, fel yr heddlu, criw ailgylchu a gwarchodwr sw trychfilod.

Ar y cyfan, mae gan y lleoliad gyflenwad da iawn o adnoddau o ansawdd. Yn yr ardal tu fewn, mae'r adnoddau yn hybu'r dysgu yn dda. Er enghraifft, byrddau gwlân i alluogi plant i gyflwyno stori gyfarwydd yn weledol, casgliad o fotymau o er mwyn eu cyfatebu yn ôl lliw a rhif. Mae hyn yn hybu datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a chreadigol plant. Mae adnoddau'r ardaloedd tu allan yn hybu mwynhad, hyder a datblygiad corfforol plant yn gadarnhaol iawn. Er enghraifft, yr offer dringo, y cafn tywod a'r moduron a beiciau amrywiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cael ei reoli gan reolwraig benodol, newydd i'w swydd a goruchwylwyr sydd hefyd yn gyfrifol am leoliadau eraill y cwmni. Maent yn rhannu gweledigaeth glir i'r dyfodol. Mae'r ymarferwr sydd hefyd yn newydd i'w swydd, yn cefnogi'r weledigaeth. Mae'r ddwy yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r holl brosesau rheolaethol, megis cynnal asesiadau risg rheolaidd, wedi ymsefydlu'n llawn.

Mae dealltwriaeth yr ymarferwyr o'u dyletswyddau newydd o arwain ac addysgu oedran penodol yn datblygu. Maent yn meddu ar berthynas agos â'r plant oherwydd eu dyletswyddau gofal cynharach ohonynt. Maent yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu ystod eang o brofiadau addysgu gwerthfawr i blant. O ganlyniad, mae plant yn hapus ac yn meithrin hyder ac annibyniaeth mewn ethos cartrefol.

Mae'r lleoliad wedi mabwysiadu polisïau a phrosesau'r CCCCYC sydd yn cynnig sail a strwythur rheolaeth gadarn. Mae gan y goruchwylwyr ddealltwriaeth glir o werth y lleoliad i'r plant a'r rhieni. Maent hwy ynghyd â'r athrawes ymgynghorol wedi sefydlu gweithdrefnau monitro effeithiol. Maent yn holi eu randdeiliaid yn rheolaidd ynglŷn â datblygiad y lleoliad ac yna yn dadansoddi'r ymatebion yn fanwl. Maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaethol cyson i drafod cynnydd y lleoliad yn erbyn eu targedau addysgiadol ac ariannol.

Mae rheolwraig a'r goruchwylwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn sicrhau bod ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant, yn ogystal â'u bod yn darparu cyfleoedd da i fwyta'n iach a chadw'n heini.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y rheolwraig newydd ymrwymiad cadarnhaol i wella'r lleoliad yn barhaus. Mae'n defnyddio amrediad o arfarniadau allanol yn effeithiol er mwyn ffocysu ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Er enghraifft, trwy ddosbarthu a dadansoddi holiaduron i rieni a staff a chasglu sylwadau plant. Mae'n nodi'r dadansoddiad yn yr adroddiad hunan arfarnu ac yn gweithredu'n ddisymwth ar yr argymhellion. Er enghraifft, cynyddu nifer cyfarfodydd ffurfiol i rieni i drafod cynnydd eu plant.

Mae gan y rheolwraig ddealltwriaeth dda o gryfderau a meysydd gwelliant y lleoliad. Mae'n nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn glir yn yr adroddiad hunan arfarnu

gyda chymorth athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae’r lleoliad yn trosglwyddo’r wybodaeth i’r cynllun datblygu fel bod y berthynas rhwng y ddwy ddogfen yn glir. Mae’r broses hon yn effeithio’n gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth y lleoliad. Er enghraifft, datblygu sgiliau iaith ar draws y meysydd dysgu, darparu amser digyswllt yn ystod y dydd i’r rheolwraig weithredu ei dyletswyddau gweinyddu a monitro. O ganlyniad, mae’r broses hunan arfarnu’n gyfredol ac effeithiol.

Gweithredodd y goruchwylwyr i wireddu argymhelliad arolygiad diwethaf Estyn yn effeithiol. Er enghraifft, wrth wneud defnydd manteisiol o’r amgylchedd leol ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r lleoliad wedi sefydlu ystod dda o bartneriaethau sy’n cyfrannu at brofiadau dysgu plant.

Mae’r bartneriaeth gyda’r rhieni yn un gadarnhaol. Mae’r rheolwraig yn rhannu gwybodaeth a lluniau ar dudalen ar wefan gymdeithasol. Er enghraifft, profiadau plant; unrhyw newidiadau arwyddocaol i drefniadau a ffocws eu themâu. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth briodol â’r rhieni am gynnydd a lles eu plant yn ddyddiol ac yn ffurfiol mewn tri chyfarfod penodol yn ystod y flwyddyn. Maent yn cyflwyno cofnod deniadol o luniau a gwaith plant ar ddiwedd cyfnod plant yn y lleoliad. Maent yn rhannu manylion trefniadau’r lleoliad a pholisïau perthnasol mewn llawlyfr cynhwysfawr ac ar eu hysbysfwrdd yn y dderbynfa. Mae’r rheolwraig yn ymofyn adborth rhieni yn rheolaidd drwy holiaduron. Er enghraifft, adborth ar y safonau, y ddarpariaeth a threfniadau. Maent yn dadansoddi’r ymatebion ac yn gweithredu’n effeithiol ar y materion sydd yn codi.

Mae’r bartneriaeth gyda’r amrediad o ysgolion lleol yn datblygu’n dda. Mae’r plant yn ymweld â’r ysgolion perthnasol yn ystod tymor yr haf sydd yn hybu eu trosglwyddiad llyfn i gam nesaf eu haddysg.

Mae’r rheolwraig yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol iawn i hyrwyddo dealltwriaeth plant o’r byd o’u cwmpas a’u hardal leol drwy fanteisio ar ymwelwyr i’r lleoliad a thrwy dywys plant ar ymweliadau pwrpasol.

Mae’r rheolwraig yn cydweithio’n effeithiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu CCCCYC sydd yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad drwy’r cyngor ymarferol a gynigir ganddynt.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithlon o staff i gefnogi’r addysgu a’r dysgu. Mae’r goruchwylwyr yn sicrhau bod gan yr ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas i weithio gyda phlant ifanc. Gwnânt ddefnydd buddiol o fedrau a phrofiad staff i gynnal y ddarpariaeth.

Mae agwedd yr ymarferwyr tuag at hyfforddiant a datblygiad yn frwdfrydig ac maent yn gwneud cysylltiadau manteisiol â lleoliadau eraill y cwmni i rannu arfer dda. Fodd

bynnag, nid yw’r staff sydd yn newydd i’w cyfrifoldebau bob amser yn cael mynediad rheolaidd i hyfforddiant sirol, i gadw’n gyfredol a gwella eu dealltwriaeth o addysgu ac rheoli.

Mae prosesau addas gan y goruchwylwyr i reoli perfformiad.  Mae’r broses o ddynodi cryfderau ac anghenion datblygiad staff unigol yn weithredol ond nid yw’r targedau bob amser yn cysylltu’n uniongyrchol â thargedau addysgiadol y cynllun datblygu.

Mae’r arweinwyr yn darparu ystod dda o adnoddau pwrpasol i’r tair ardal dysgu i hybu datblygiad plant ar draws bob maes dysgu.

Mae’r rheolwraig yn gwneud bob ymdrech i sicrhau fod y lleoliad yn gynaliadwy drwy warantu arian wrth gefn.  O ystyried hyn a’r ddarpariaeth effeithiol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (CCCCYC)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |